SKSG10

Rigio ceir a threlyrs tracio

Trosolwg

Mae'r Safon hwn yn ymwneud â rigio cerbyd neu drelar (llwyfan teithiol). Mae'n ymwneud â dethol y math cywir o fownt camera, craen neu fraich jib, a gosod y mownt cyfan heb achosi unrhyw niwed na pheryglu eraill.

Mae'n gofyn am adnabod pob perygl ac amgylchiad amgylcheddol a allai effeithio ar y gwaith, cynhyrchu asesiad risg a rhoi gwybod i'r tîm cynhyrchu am unrhyw anghenion arbennig.

Mae'r safon hwn ar gyfer unrhyw un sy'n rigio ceir neu drelars tracio.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1 Gwneud yn siŵr fod cyfanswm pwysau'r holl offer a phobl yn llai na chapasiti pwysau plât neu 'drên' cerbydau neu drelars

2 Defnyddio gwybodaeth ddibynadwy i gadarnhau lleoliadau ac onglau siotiau a llwybrau a chyflymder bwriedig cerbydau neu drelars

3 Teithio ar hyd y llwybr bwriedig ar adeg addas i adnabod addasrwydd yr arwynebedd y gyrrir drosto a natur unrhyw rwystrau neu beryglon

4 Cadarnhau lleoliadau, cyflymder a chyfeiriad unrhyw symudiadau eraill gyda staff cynhyrchu addas

5 Cynhyrchu asesiadau risg a chyfathrebu canfyddiadau i bob person perthnasol

6 Cadarnhau bod pob prop ac offer arall a osodwyd yn ddiogel ac yn sownd yn unol â rheoliadau, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant

7 Adeiladu a lleoli rigiau a rhoi camerâu ac ategolion yn sownd heb achosi niwed i gerbydau, trelars nac anaf i bobl

8 Defnyddio deunyddiau, rhaffau, clymau neu strapiau hogi er mwyn atal unrhyw symud diangen

9 Gwirio fod rigiau'n cwrdd â gofynion diogelwch yn achos brecio mewn argyfwng

10 Darparu harneisiau diogelwch sydd o fewn dyddiad ar gyfer pob personél cynhyrchu addas

11 Cyfarwyddo pobl berthnasol ynghylch sut i ddefnyddio harneisiau diogelwch

12 Darparu gwarchodaeth amgylcheddol ar gyfer offer a phobl, sy'n ddiogel a sownd, yn unol â deddfwriaeth, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant

13 Cael pob caniatâd a chliriad arbennig gan ffynonellau perthnasol

14 Cynghori staff cynhyrchu perthnasol pan fydd angen caniatâd arbennig

15 Rhoi gwybod i staff cynhyrchu addas am unrhyw rwystr neu amgylchiad sy'n effeithio ar y gallu i weithio'r rig yn ddiogel

16 Dangos fod rigiau'n ddiogel ar gyfer pellter a thaith lawn eu defnydd bwriedig

17 Cyfathrebu gwybodaeth berthnasol i yrwyr ar adegau addas i'w galluogi i weithredu'r cerbydau yn unol â gofynion iechyd a diogelwch

18 Sicrhau a diogelu offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1 Deddfwriaeth, canllawiau ac arfer orau cyfredol y diwydiant

2 Sut i gyfrifo cyfanswm pwysau unrhyw offer technegol, propiau neu bobl

3 Ffynonellau gwybodaeth ynghylch llwybrau arfaethedig a chyflymder cerbydau neu drelars a'u hoblygiadau i rigiau a phobl

4 Natur yr arwynebedd y gyrrir arno, ac effaith hynny ar rigiau a phobl

5 Terfynau eich arbenigedd a ble mae'n addas i alw ar arbenigwyr eraill

6 Manteision gweithio mewn tîm a sut i gyfathrebu ag eraill

7 Sut i weithio ar y cyd â gyrwyr a phryd a sut i gyfathrebu gyda nhw

8 Sut i adnabod rhwystrau neu beryglon posib o fewn i gylch gweithredu rigiau

9 Ffynonellau gwybodaeth am niferoedd a lleoliadau staff cynhyrchu mewn rigiau neu arnynt

10 Ffynonellau gwybodaeth am safleoedd bwriedig ac unrhyw ddigwyddiadau ategol neu agos

11 Sut i adeiladu rigiau heb achosi niwed i gerbydau na threlars, na niwed i bobl

12 Y mathau gwahanol o ddeunyddiau i ddarparu sadrwydd a diogelwch ychwanegol

13 Mesurau i'w dilyn i sicrhau fod yr holl bobl yn ddiogel

14 Dyfeisiadau i'w defnyddio i warchod offer camera rhag niwed allanol

15 Caniatâd arbennig y gellir bod angen ei gael pan fydd angen defnyddio cerbydau ar y briffordd gyhoeddus

16 Pryd i roi gwybod i'r tîm cynhyrchu am unrhyw rwystr i weithredu diogel

17 Sut i ddiogelu offer pan nad yw'n cael ei ddefnyddio

18 Pam ei bod hi'n bwysig cadw offer yn sych ac yn rhydd o lwch, tywod a malurion eraill

19 Yr Offer Gwarchod Personol (PPE) angenrheidiol

Rigio ceir a threlyrs tracio

Datblygwyd gan	Creative Skillset
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2018
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Screen Skills (gynt Creative Skillset)
RCU gwreiddiol	SKSG10
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd Craen (Ffilm a theledu); Gweithredwr Craen (Ffilm a theledu); Grip dan hyfforddiant; Grip
Cyfres/Set	Grips a thechnegwyr craeniau
Geiriau Allweddol	Grip, Car, Drelars, Cerbydau, Crane, Camera, Iechyd a diogelwch, Mowntiau